CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2000 Rhif 3122 (Cy. 200)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Athrawon (Cofrestru Gorfodol) (Cymru) 2000

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r rheoliadau hyn yn darparu na all unrhyw athrawon cymwysedig, ar wahân i eithriadau penodol, gael eu cyflogi mewn ysgolion a gynhelir neu mewn ysgolion arbennig nad ydynt yn cael eu cynnal oni chofrestrir hwy gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 No. 3122 (W. 200)

EDUCATION, WALES

The Teachers (Compulsory Registration) (Wales) Regulations 2000

EXPLANATORY NOTE

(This note does not form part of the Regulations)

These regulations provide that no qualified teachers, save for certain exceptions, are to be employed in maintained schools or in non-maintained special schools unless they are registered by the General Teaching Council for Wales.

OFFERYNNAU STATUDOL

2000 Rhif 3122 (Cy. 200)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Athrawon (Cofrestru Gorfodol) (Cymru) 2000

Wedi'u gwneud *23 Tachwedd 2000*

Yn dod i rym *1 Chwefror 2001*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Adran 218(1)(aa) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988**(a)** ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru**(b)** mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Athrawon (Cofrestru Gorfodol) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 1 Chwefror 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Cofrestru gorfodol gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

2.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), ni all neb sy'n athro neu athrawes gymwysedig gael ei gyflogi neu ei chyflogi fel athro neu athrawes mewn ysgol yng Nghymru onid yw wedi'i gofrestru neu ei chofrestru yn unol ag adran 3 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998**(c)**, gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â pherson a gyflogir fel athro neu athrawes mewn ysgol os yw'r person hwnnw wedi'i gyflogi dim ond i ddarparu-

(a) addysg ran-amser i bersonau dros oedran ysgol gorfodol yn unig; neu

(b) addysg amser-llawn i bersonau sydd wedi cyrraedd 19 oed yn unig; neu

(a) 1988 p.40. Mewnosodwyd adran 218(1)(aa) gan adran 11 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p.30).

(b) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 218 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672).

(c) 1998 p. 30.

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 No. 3122 (W. 200)

EDUCATION, WALES

The Teachers (Compulsory Registration) (Wales) Regulations 2000

Made *23rd November 2000*

Coming into force *1st February 2001*

In exercise of the powers conferred on the Secretary of State by Section 218(1)(aa) of the Education Reform Act 1988**(a)** and now vested in the National Assembly for Wales**(b)** the National Assembly for Wales makes the following Regulations:

Citation, commencement and application

1.-(1) These Regulations may be cited as the Teachers (Compulsory Registration) (Wales) Regulations 2000 and shall come into force on 1st February 2001.

(2) These Regulations apply only to Wales.

Compulsory registration with the General Teaching Council for Wales

2.-(1) Subject to paragraph (2), no person who is a qualified teacher shall be employed as a teacher at a school in Wales unless that person is registered in accordance with section 3 of the Teaching and Higher Education Act 1998**(c)**, by the General Teaching Council for Wales.

(2) Paragraph (1) does not apply in relation to a person employed as a teacher at a school if that person is employed solely in the provision of -

(a) part-time education to persons over compulsory school age only; or

(b) full-time education to persons who have attained the age of 19 years only; or

(a) 1988 c.40. Section 218(1)(aa) was inserted by section 11 of the Teaching and Higher Education Act 1998 (c.30).

(b) The functions of the Secretary of State under section 218 were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (SI 1999/672).

(c) 1998 c. 30.

(c) addysg ran-amser ac addysg amser-llawn o'r fath.

(3) Yn y rheoliad hwn -

(a) mae i "athro neu athrawes gymwysedig" yr un ystyr ag a roddir i "*qualified teacher*" yn adran 218(2) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988**(a)**;

(b) mae cyfeiriadau at berson a gyflogir fel athro neu athrawes yn cynnwys cyfeiriadau at berson y cytunwyd ei fod i ddarparu ei wasanaethau fel athro neu athrawes heblaw o dan gontract cyflogaeth; ac

(c) mae cyfeiriadau at ysgol yn gyfeiriadau:

(i) at ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol o fewn ystyr adran 142(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998**(b)**; neu

(ii) at ysgol arbennig o fewn ystyr adran 337(1) o Ddeddf Addysg 1996**(c)** nad yw'n cael ei chynnal felly.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(ch)**.

(c) both such part-time and full-time education.

(3) In this regulation -

(a) "qualified teacher" has the same meaning as in section 218(2) of the Education Reform Act 1988**(a)**;

(b) references to a person employed as a teacher include references to a person who is engaged to provide his or her services as a teacher otherwise than under a contract of employment; and

(c) references to a school are references:

(i) to a school maintained by a local education authority within the meaning of section 142(1) of the School Standards and Framework Act 1998**(b)**;or

(ii) to a special school within the meaning of section 337(1) of the Education Act 1996**(c)** which is not so maintained.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998 **(d)**.

23 Tachwedd 2000

23rd November 2000

John Marek

Dirpwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Deputy Presiding Officer of the National Assembly

(a) Adeg gwneud y Rheoliadau hyn, y rheoliadau a oedd mewn grym o dan y ddarpariaeth hon ar gyfer Cymru oedd Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999 (O.S. 1999/2817 (Cy.18)); adeg gwneud y Rheoliadau hyn, y rheoliadau a oedd mewn grym o dan y ddarpariaeth hon ar gyfer Lloegr oedd Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Lloegr) 1999 (O.S. 1999/2166).

(b) 1998 p.31.

(c) 1996 p.56; mae adran 337(1) wedi'i diwygio gan baragraff 80 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

(ch) 1998 p.38.

(a) At the time of making these Regulations, the regulations in force for Wales under this provision were the Education (Teachers' Qualifications and Health Standards) (Wales) Regulations 1999 (S.I. 1999/2817 (W.18)); at the time of making these Regulations, the regulations in force for England under this provision were the Education (Teachers' Qualifications and Health Standards) (England) Regulations 1999 (S.I. 1999/2166).

(b) 1998 c.31.

(c) 1996 c.56; section 337(1) is amended by paragraph 80 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998.

(d) 1998 c.38.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2000 Rhif 3122 (Cy. 200)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Athrawon (Cofrestru Gorfodol) (Cymru) 2000

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 No. 3122 (W. 200)

EDUCATION, WALES

The Teachers (Compulsory Registration) (Wales) Regulations 2000

©℗ Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090138-X

9 780110 901381

£1.75

W/158/12/00 ON